UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Materion Llwyth Gwaith

Ionawr 2015

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

# Materion Llwyth Gwaith

## Holiadur UCAC i Athrawon

**Rhagarweiniad**

Ym marn UCAC, er mwyn gallu ysbrydoli disgyblion a chreu'r awyrgylch gorau ar gyfer dysgu, mae angen athrawon sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau addysgu angenrheidiol ond sydd, hefyd, yn gydwybodol, egnïol ac yn mwynhau eu gwaith.

Ers cryn amser, mae Swyddogion UCAC wedi dod ar draws athrawon sydd yn gwegian dan straen llwyth gwaith gormodol a phenderfynom fod angen ceisio dod â rhai ffeithiau am y sefyllfa i'r golwg trwy roi cyfle i aelodau ymateb i Holiadur.

Cafwyd 720 o ymatebion gyda'r mwyafrif o'r sawl ymatebodd yn athrawon dosbarth heb gyfrifoldebau ychwanegol ond roedd:

- 24% yn athrawon â lwfans CAD neu lwfans AAA am gyfrifoldeb ychwanegol
- 12% ar dîm arwain Ysgol (pennaeth, dirprwy, pennaeth cynorthwyol)

Roedd 15% o'r ymatebion oddi wrth athrawon sydd yn gweithio rhan amser naill ai ar gytundeb neu fel athrawon cyflenwi.

Mae'r ymatebion a ddaeth i'n Holiadur Llwyth Gwaith yn creu darlun eglur o:

- weithlu addysg sydd dan straen mawr
- ofynion afresymol dros gyfnod hir, ar weithlu cydwybodol sydd yn dymuno cyrraedd safonau uchel yn eu gwaith er lles eu disgyblion
- lefelau llwyth gwaith sydd, nid yn unig yn cael effaith negyddol ar fywydau personol athrawon, ond, hefyd, sydd yn ymyrryd â'u gallu i flaenoriaethu'r tasgau sydd yn cyfrannu mwyaf at godi safonau addysg
- athrawon ac arweinwyr sydd yn bryderus am y llwyth gwaith sydd yn parhau i gynyddu ac yn effeithio'n negyddol ar addysg eu disgyblion.

Mae rhai o'r athrawon yn edrych am ffordd i adael y proffesiwn - neu i weithio'n rhan amser oherwydd eu bod yn methu cael unrhyw gydbwysedd bywyd-gwaith. Mae rhai wedi cymryd swydd ran amser yn barod am y rhesymau hyn.

Yn anorfod mae'r lefelau llwyth gwaith yn mynd i gael effaith ar ein gallu yng Nghymru i gadw athrawon ardderchog, cydwybodol yn y proffesiwn ac i ddenu pobl i addysgu fel gyrfa. Yn ogystal â hyn, credwn y bydd yn creu problemau cynyddol i ddenu athrawon i ymgeisio am swyddi â chyfrifoldebau ychwanegol. Cred UCAC bod rhaid ymateb i'r pryderon hyn ar frys, nid yn unig er lles yr unigolion o fewn y proffesiwn ond er lles y disgyblion.

Mae UCAC yn mynychu trafodaethau yn yr Adran Addysg yn San Steffan oherwydd cyfrifoldeb yr Adran honno am dâl ac amodau gwaith statudol athrawon a gynhwysir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Ar hyn o bryd mae'r Adran yn ceisio cydweithio gyda'r undebau er mwyn mynd i'r afael â llwyth gwaith gormodol, ond ni all y trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a'i Swyddogion fynd i'r afael â llwyth gwaith sydd yn deillio o faterion datganoledig e.e. blaengareddau Llywodraeth Cymru, pwysau sydd yn dod wrth yr Awdurdodau Lleol a'r Consortia yng Nghymru, effaith gofynion arolygu Estyn, y gwahanol ffyrdd mae penaethiaid yng Nghymru yn ymateb i'r pwysau sydd arnyn nhw i godi safonau a sut mae timau arwain yn dehongli gofynion amrywiol. Mae angen darganfod atebion yng Nghymru i'r problemau penodol sydd yn codi yng Nghymru.

Mae’r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn awyddus i gydweithio gyda rhanddeiliaid i godi safonau addysg yng Nghymru ac mae'r ddogfen Cymwys am Oes yn amlinellu ei weledigaeth gan bwysleisio ein cyfrifoldeb oll:

> *"Mae cyflawni ar gyfer ein plant a’n pobl ifanc yn gofyn am fwy na rhestr o gamau gweithredu. Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom, er mwyn ein plant a’n pobl ifanc, eu haddysg a’u dyfodol. Gyda’n gilydd, rydw i am inni ymrwymo i ddatblygu addysg Gymraeg i’r lefel uchaf bosibl, fel ei bod ymhlith y gorau yn y byd. Rydw i am i’n gweledigaeth gael ei seilio ar system o ysgolion sy’n hunan-wella a gweithwyr proffesiynol cydweithredol wedi’u hysgogi gan bwrpas moesol cyffredin sy’n anelu at safonau cynyddol uwch.*
>
> *Gyda’n gilydd gallwn ni sicrhau ein bod ni’n gwneud ein gorau glas dros bob plentyn a pherson ifanc, beth bynnag fo’u cefndir."*
>
> Rhagair y Gweinidog
> Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg ar gyfer Dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru

Wrth gydnabod pwysigrwydd y weledigaeth hon, cred UCAC na fydd yn bosib cyrraedd y nod heb fynd i'r afael â'r broblem sylweddol o lwyth gwaith gormodol. Mae UCAC yn pwyso ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gydweithio gyda'r proffesiwn i wella'r sefyllfa gwaith ar gyfer athrawon. Mae hyn yn allweddol, nid yn unig fel rhan o’r agenda codi safonau, ond, hefyd, oherwydd y cyfrifoldeb sydd arnom oll i geisio sicrhau amodau gwaith teg i athrawon. Mae’r sefyllfa bresennol yn anghynaladwy gyda nifer o athrawon cydwybodol wedi cyrraedd pen eu tennyn ac yn chwilio am ffordd i adael y proffesiwn.

Mae’n rhaid i ni weithredu ar y cyd, ar fyrder, i leihau llwyth gwaith athrawon, gwella morâl ac ailsefydlu statws addysgu fel gyrfa.

**Elaine Edwards**
**Ysgrifennydd Cyffredinol**

# Ymatebion i'r Holiadur

## 1. Oriau Gwaith Athrawon

**Ystadegau'r ymchwil**

- Mae 91% o'r athrawon o'r farn bod ganddynt lwyth gwaith gormodol.

Mae athrawon yn gorfod gweithio tu allan i oriau ysgol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Nid oes uchafswm o oriau gwaith wedi'i nodi yn y *Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol*, ond mae athrawon i fod ar gael i weithio dan gyfarwyddyd y pennaeth am 1265 awr yn ystod y flwyddyn ysgol o 195 diwrnod. Mae'r oriau hyn i gynnwys amserlen addysgu'r ysgol, amser Cynllunio Paratoi ac Asesu, cofrestru disgyblion, cyfarfodydd staff ar ôl ysgol, cyfarfodydd rhieni , diwrnodau HMS a gweithgareddau amrywiol eraill.

Mae disgwyl iddynt hefyd weithio oriau ychwanegol *rhesymol* er mwyn cyflawni gofynion y swydd, ond nid oes diffiniad o beth sydd yn *'rhesymol'*.

Mae'n amlwg o ganlyniadau'r Holiadur, ac o'n profiad fel undeb, bod athrawon yn gweithio oriau sylweddol tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys gweithio yn ystod gwyliau swyddogol. Nid yw'r cyhoedd yn ymwybodol o faint o waith sydd yn cael ei gyflawni yn y modd yma.

- Mae'r ymchwil yn dangos bod dros 45% o'r athrawon yn gweithio, ar gyfartaledd, rhwng 15 ac 20 awr bob wythnos tu allan i oriau ysgol.
- Mae dros 16% yn gweithio, ar gyfartaledd, dros 20 awr yr wythnos yn ychwanegol.

Golyga hyn bod hyd at 61% o athrawon yn gweithio'n rheolaidd tu hwnt i'r 48 awr a nodir yn y *Working Time Regulations* ar gyfer person sydd yn gweithio llawn amser.

Nid yw hyn yn cyfrif yr holl oriau o waith a gyflawnir yn ystod gwyliau swyddogol.

Mae canran sylweddol o'r sawl sydd yn nodi eu bod yn gweithio hyd at 10 awr yr wythnos tu allan i orau ysgol swyddogol yn gweithio'n rhan amser neu'n athrawon cyflenwi.

Mae 67.75% o'r athrawon yn dweud eu bod yn methu cael cydbwysedd bywyd-gwaith a dylai hyn fod yn fater o bryder i Llywodraeth Cymru.

**Materion i'w hystyried:**

1. Beth sydd yn rhesymol o ran oriau gwaith tu allan i'r oriau ysgol swyddogol arferol?
2. Os oes rhai athrawon dan fwy o straen nag eraill, beth yw'r prif ffactorau - maint dosbarthiadau, trawstoriad oed y dosbarth, y pwnc/pynciau neu gyfnod(au) allweddol, cyfrifoldebau ychwanegol, dim digon o amser digyswllt, gweithio'n llawn amser ayb?
3. Sut allwn sicrhau arfer gorau ar draws ysgolion Cymru o ran blaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith?
4. Sut allwn sicrhau bod modd i athro weithio llawn amser a chael cydbwysedd bywyd-gwaith rhesymol?

## 2. Beth sydd yn creu'r llwyth gwaith mwyaf?

**Ystadegau'r Ymchwil**

Mae amrywiaeth o dasgau yn cyfrannu at y pwysau gwaith.

Gofynnwyd iddynt ddewis hyd at dair dyletswydd o restr o 10 roedd, yn eu barn hwy, yn cyfrannu fwyaf at eu llwyth gwaith. Daeth y canlynol i'r brig fel y prif ffactorau:

- Cynllunio (53%)
- Paratoi gwersi ac adnoddau (55%)
- Marcio ac asesu ar gyfer dysgu (66%)

Dewisodd 48% o athrawon Asesu Crynodol yn y tri uchaf.

Roedd arweinwyr ysgol yn fwy tebygol o ddewis materion eraill yn y tri uchaf, oherwydd eu cyfrifoldebau rheolaethol.

Ym marn yr athrawon y tri pheth yma sydd hefyd yn cael yr effaith fwyaf ar godi safonau:

- Cynllunio (60%)
- Paratoi gwersi ac adnoddau (91%)
- Marcio ac asesu ar gyfer dysgu (73%)

Mae'r athrawon yn cydnabod pwysigrwydd y tasgau hyn ar gyfer codi safonau ac yn derbyn pwysigrwydd cyflawni'r gwaith yma (er y llwyth gwaith mawr) ond gwnaed y sylw, tro ar ôl tro, bod y gwaith cynllunio wedi mynd dros ben llestri – mae'n ormodol ac yn orfanwl. Nid yw'r amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu swyddogol yn ddigon ar gyfer un elfen o'r gwaith, sef y cynllunio.

Mae pethau ychwanegol yn gorfod cael eu cwblhau, hefyd, ac wrth gyfrif popeth mae'r llwyth gwaith yn mynd yn annerbyniol ac mae sylwadau'r athrawon yn dangos cryn rwystredigaeth a straen.

Ym marn UCAC mae gwir angen ystyried y math o ganllawiau sydd ar gael i ysgolion - mae'n amlwg bod gwahanol ysgolion â disgwyliadau amrywiol wrth weithredu blaengareddau'r Llywodraeth / Awdurdod Lleol. Mae hefyd angen sicrhau digon o amser cyn gorfod cyflwyno newidiadau - mae'n amlwg bod gormod wedi bod yn digwydd dros gyfnod gymharol fyr a heb ddigon o amser i baratoi am y newidiadau. Mae cynllunio manwl (gorfanwl) yn codi tro ar ôl tro fel mater o bryder.

**Materion i'w hystyried:**

1. Pa dasgau sy'n cyfrannu fwyaf at godi safonau addysgu a safonau disgyblion?
2. Pa mor fanwl sydd angen i gynllun gwers a chynllun cwricwlwm fod?
3. Pa mor fanwl sydd angen i adroddiad fod?
4. Pa waith papur sydd wir yn helpu i godi safonau? Oes angen yr holl waith papur?
5. Ydy'r tracio wedi arwain at asesu'n rhy aml heb ganiatáu digon o amser i ddisgyblion ddatblygu a dangos cynnydd?
6. Beth sydd yn dderbyniol fel maint dosbarthiadau gan ystyried yr holl waith ychwanegol sydd yn gorfod cael ei gwblhau?
7. Sut mae sicrhau arweiniad cyson i ysgolion / athrawon a digon o amser i gyflwyno newidiadau?
8. Pa arweiniad a chefnogaeth sydd i benaethiaid / arweinwyr mewn ysgolion bach, sydd â llwyth gwaith addysgu mawr ond eto'n gyfrifol am arwain yr ysgol yn strategol er mwyn sicrhau llwyddiant yr ysgol gyfan?
9. Sut ellir sicrhau bod Awdurdodau Lleol / Consortia yn gweithredu'n gyson ac yn realistig?
10. Pryd fydd yr Adran Addysg a Sgiliau yn fwy realistig o ran gweithredu blaengareddau (a'u profi'n llawn ymlaen llaw)?

## 3. Beth sydd yn cael yr effaith leiaf ar godi safonau?

**Ystadegau'r Ymchwil**

Rhoddwyd cyfle i ddewis tair dyletswydd o restr o 10 neu enwi rhywbeth gwahanol. Roedd mwy o wahaniaeth barn wrth ymateb i'r cwestiwn hwn fel y gwelwch isod:

- Trefn arolygu Estyn (54.35%)
- Trefn monitro / arolygu Awdurdod Lleol / Consortia (43.77%)
- Dadansoddi data (39.13%)
- Gweithredu blaengareddau'r Llywodraeth / Awdurdod Lleol / Ysgol (38.12%)
- Asesiadau crynodol e.e. diwedd cyfnod allweddol, gwaith cwrs, paratoi adroddiadau (31.88%)
- Materion rheolaethol (staffio, cyllido, polisïau, lles a diogelwch) (31.45%)

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn atgyfnerthu'n ysgubol ymatebion i'r cwestiwn cynt am godi safonau ac yn adlewyrchu barn gref yr athrawon mai cynllunio, paratoi gwersi ac adnoddau, marcio ac asesu ar gyfer dysgu, sydd yn cael yr effaith fwyaf ar godi safonau.

Mae'r materion a nodir uchod oll yn creu llwyth gwaith sylweddol, ond ym marn athrawon, rhain sydd yn cael yr effaith leiaf ar godi safonau, ond mae'n rhaid eu cyflawni beth bynnag. Maent yn cyfrannu at y llwyth gwaith gormodol ac yn aml yn mynd ag amser athrawon i ffwrdd o waith cynllunio, paratoi ac asesu.

**Materion i'w hystyried:**

1. Sut mae modd lleihau gofynion llwyth gwaith / straen y pethau sydd yn cael yr effaith leiaf ar godi safonau, ond sydd efallai'n angenrheidiol eu cyflawni?
2. Mae'r Adran Addysg wedi hwyluso trafodaeth gydag Ofsted am ganllawiau sydd yn mynd i ysgolion am ddisgwyliadau Ofsted wrth arolygu - er mwyn osgoi llwyth gwaith ychwanegol diangen. A oes modd i'r Adran Addysg a Sgiliau hwyluso'r fath drafodaeth gydag Estyn yng Nghymru?
3. Ydyn ni wedi cyrraedd y nod o wneud defnydd deallus o ddata yn hytrach na gorddefnydd o ddata? Os na, beth yw'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau hyn?
4. Sut allwn sicrhau bod yr Awdurdodau Lleol a'r Consortia yn darparu cymorth i ysgolion ddatblygu a thynnu'r elfen fygythiol allan o'r "herio"?

## 4. Ydych chi'n derbyn amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu?

**Ystadegau'r ymchwil**

Mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf bod y darlun am yr hawl statudol i amser Cynllunio Paratoi ac Asesu yn un positif, h.y. bod 90.35% o'r athrawon yn derbyn amser CPA yn rheolaidd bob wythnos neu bythefnos.

Ar y llaw arall, daeth 114 sylw yn dilyn y cwestiwn a dim ond 9 o'r sylwadau hyn oedd yn bositif. Mae gweddill y sylwadau yn dangos problemau gyda gweithredu CPA a dilyn y gofynion statudol.

Lle mae'r pennaeth yn dilyn y rheolau mae'r athrawon yn cael gwerth o'r cyfnod, er bod dal rhaid gwneud gwaith sylweddol ar ôl oriau ysgol, ond mae gormod o enghreifftiau o dorri'r rheolau, naill ai'n fwriadol neu trwy anwybodaeth.

**Materion i'w hystyried:**

1. Ai anwybodaeth sydd am reolau CPA neu oes rhai penaethiaid yn torri'r rheolau'n fwriadol? Ac os hynny, pam? Problemau cyllido? Problemau staffio?

2. Beth all Lywodraeth Cymru (a'r Awdurdodau Lleol) wneud i sicrhau bod ysgolion Cymru oll yn gweithredu'r gofynion statudol yn gywir?

Mae pryderon am lwyth gwaith gormodol yn parhau'n amlwg yn yr ymatebion i'r cwestiwn am amser CPA. Mae hefyd yn amlwg bod gormod o dorri rheolau CPA, gyda llawer o athrawon yn colli'r amser yn aml neu ei fod yn cael ei ddefnyddio at bwrpas arall gan fod gormod o ddisgwyliadau.

Mae rhai arweinwyr ysgol hefyd yn mynd heb amser CPA er mwyn sicrhau bod eraill yn ei gael.

## 5. Pa gyfrifoldebau ychwanegol sydd gan athrawon?

**Ystadegau'r ymchwil**

Cynigwyd dewis o restr benodol ac mae'n debygol bod athrawon hefyd yn cyflawni dyletswyddau eraill.

Mae'n amlwg bod llawer o gyfrifoldebau ychwanegol gan athrawon a'r rhai sydd yn amlwg yn effeithio'r mwyafrif o athrawon yw:

| | | |
|---|---|---|
| • Cynnal gweithgareddau allgyrsiol / clybiau | **73.85%** | 514 |
| • Cyfieithu adnoddau / gohebiaeth i rieni | **70.11%** | 488 |
| • Tasgau clerigol neu weinyddol | **64.08%** | 446 |
| • Mentora myfyrwyr | **49.57%** | 345 |
| • Cynnal sesiynau adolygu amser cinio / ar ôl Ysgol | **46.12%** | 321 |
| • Cynnal sesiynau hyfforddi i staff yr ysgol | **45.40%** | 316 |
| • Gwneud trefniadau ar gyfer profion darllen a rhifedd | **40.52%** | 282 |
| • Mentora athrawon newydd gymhwyso / Mentora'r Cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol | **21.26%** | 148 |
| • Cynnal sesiynau adolygu yn ystod y penwythnos / gwyliau | **20.26%** | 141 |
| • Cynnal sesiynau hyfforddi i sefydliadau eraill | **9.20%** | 64 |
| • Dilyn y Cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol | **4.74%** | 33 |

Ni ofynnwyd am sylwadau pellach mewn ymateb i'r cwestiwn yma, ond mae'n amlwg bod llawer o gyfrifoldebau ychwanegol yn rhan o waith athro.

Er yr holl lwyth gwaith, mae dros 73% o athrawon yn parhau i gynnig cyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion - a hynny er budd y disgybl.

Mae'n fater o bryder bod cynnal sesiynau adolygu amser cinio / ar ôl ysgol / yn ystod y penwythnos neu wyliau yn amlwg yn effeithio canran uchel o athrawon. Mae wedi bod yn dod i sylw swyddogion UCAC ers rhai blynyddoedd bod mwyfwy o athrawon yn teimlo dan bwysau i drefnu sesiynau adolygu i ddisgyblion arholiad yn ystod gwyliau ysgol. Mewn rhai ysgolion nid yw'n fater o ddewis i athro unigol ond mae'n ddisgwyliedig – gan y pennaeth a'r rhieni, ac mae athrawon yn teimlo'r rheidrwydd i wneud hyn. Dylai fod modd cyflawni holl ofynion paratoi disgyblion ar gyfer cwrs arholiad yn ystod gwersi arferol. Os nad yw hyn yn bosib, rhaid gofyn os oes gormod o ofynion yn y cwrs. Mae'n bwysig hefyd, bod pobl ifainc yn dysgu sgiliau adolygu ac yn cymryd cyfrifoldeb i adolygu gartref; mae hyn yn gam pwysig yn eu datblygiad. Os ydym yn dymuno rhoi'r sgiliau i blant a phobl ifainc i allu trefnu eu hamser, i feddwl dros eu hun, i weithio'n annibynnol, mae rhaid rhoi cyfrifoldeb iddynt a dylwn fod yn gallu dibynnu ar rieni i gefnogi athrawon yn hyn o beth.

O ystyried y cyfeiriad at dasgau clerigol neu weinyddol, mae cwestiynau'n codi am faint o'r tasgau hyn sydd wir yn waith i athro a faint dylai fod mewn disgrifiad swydd aelod o'r staff cymorth yr ysgol. Faint o ysgolion sydd wedi bod yn dilyn rheolau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol am dasgau clerigol a gweinyddol?

Mae canran uchel iawn o athrawon yn nodi gwaith cyfieithu rheolaidd (70.11%) fel rhan o'u gwaith. Unwaith eto, nid yw cyfieithu'n waith i athro ond mae'n syrthio ar blât athro er mwyn safio arian a diffyg adnodau addas; mae'n rhywbeth arall sydd yn ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith ac yn digwydd yn benodol yn y sectorau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae angen sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu paratoi yn y Gymraeg i gefnogi gwaith mewn ysgolion yn ystod pob cyfnod allweddol ac ar gyfer pob pwnc. Mae hyn yn wir am ddarpariaeth Byrddau Arholi yn ogystal â gwasanaeth gwella ysgolion y Consortia.

## Taith Llwyth Gwaith UCAC

Yn ystod tymor yr Hydref 2014 cynhaliwyd Taith Llwyth Gwaith UCAC ar draws Cymru, er mwyn cwrdd ag aelodau wyneb i wyneb i drafod materion llwyth gwaith yn benodol. Daeth cannoedd o aelodau i gwrdd â'i Swyddog Maes ac roedd y trafodaethau hyn yn cadarnhau'r gofidiau a godwyd mewn ymateb i gwestiynau'r Holiadur ym mis Gorffennaf, gyda'r un materion o bryder yn codi tro ar ôl tro, beth bynnag yr ardal.

Roedd llwyth gwaith gormodol, diffyg cydbwysedd bywyd-gwaith, morâl isel iawn a theimladau o straen yn gyffredin i athrawon ledled Cymru. Er bod patrymau gwaith unigolion yn amrywio yn ôl eu hymrwymiadau teuluol, mae'n ymddangos bod un patrwm gwaith yn eithaf cyffredin ar gyfer athrawon sydd â chyfrifoldebau teuluol:

- 8.00 a.m. – 4.30 p.m. yn yr ysgol
- 4.30 p.m. – 7.00 p.m. teithio adre / gwneud pethau gyda'r teulu / cael swper
- 7.00 p.m. tan yn hwyr / hwyr iawn – gwneud gwaith ysgol
- Nos Wener a dydd Sadwrn – ceisio ymlacio a gwneud rhywbeth gyda'r teulu
- Prynhawn a nos Sul – gweithio eto a phoeni am yr wythnos o'u blaenau

Dyw'r fath amserlen ddim yn caniatáu llawer o amser gyda theulu a ffrindiau a roedd y mwyafrif yn dweud nad oedd unrhyw amser am ddiddordebau hamdden adeg tymor ysgol. Rhaid cofio, hefyd, bod angen egni a brwdfrydedd i weithio'n llwyddiannus fel athro, er mwyn ysgogi a chynnal diddordeb plant a phobl ifainc – ac mae'n anodd bod yn egnïol ac yn frwdfrydig trwy'r amser pan nad oes unrhyw gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Yn ystod y Taith Llwyth Gwaith, wrth gydnabod bod cael 10% o amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu yn gallu helpu, roedd yn amlwg bod problemau helaeth ynglŷn â gweithredu gofynion statudol y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a bod dim digon o amser CPA i wneud gwahaniaeth sylweddol i lwyth gwaith. Hyd yn oed pan fydd athrawon yn derbyn y cyfnod CPA yn rheolaidd nid yw'n mynd i'r afael â'r llwyth gwaith sylweddol sydd yn gorfod cael ei gyflawni ar ôl oriau ysgol. Mae angen sicrhau bod mwy o amser digyswllt ar gael neu bod llai o ofynion ar athrawon.

Mynegodd nifer o athrawon bryderon am Athrawon Newydd Gymhwyso yn boddi dan yr holl ofynion. Mae cynllunio gorfanwl yn amlwg yn creu llwyth gwaith sylweddol iawn.

Codwyd y mater tracio a chwestiynwyd pam nad oes system genedlaethol o dracio disgyblion yn ogystal â chwestiynau am werth y tracio pan mae'n digwydd yn rhy aml. Gydag ysgolion yn defnyddio gwahanol systemau tracio nid yw'r wybodaeth yn gyson.

Mae'n amlwg wrth sylwadau'r athrawon bod y drefn arolygu'n dal i greu llwyth gwaith ychwanegol a gofid mawr. Yn ystod y trafodaethau roedd consensws byddai cael canllawiau clir gan Estyn o'r disgwyliadau wrth ymweld ag ysgolion yn ddefnyddiol iawn – a phwyswn eto ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i hwyluso trafodaeth am hyn rhwng yr Adran Addysg a Sgiliau, yr undebau ac Estyn.

Roedd llawer yn sôn am ddiffyg cefnogaeth i’r proffesiwn gyda’r hinsawdd herio yn fygythiol a chyson a heb ei gydbwyso gan gefnogaeth o safon uchel i sicrhau bod adnoddau addas, hyfforddiant addas a chyngor pwrpasol ar gael i hybu gwelliant. Codwyd cwestiynau am rôl Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyngor y Gweithlu Addysg o Ebrill 2015) a diffyg cefnogaeth i’r proffesiwn gan y Cyngor neu unrhyw gorff arall heblaw am gefnogaeth undebol. Nodwyd bod yna ddiffyg parch at y proffesiwn a diffyg statws.

Roedd nifer o’r athrawon yn codi pryderon am ddiffyg cefnogaeth ac ymrwymiad rhieni, e.e. ceisiadau i ddarllen gyda’u plant i atgyfnerthu’r gwaith yn yr ysgol yn cael eu hanwybyddu, ond eto’r rhieni’n barod iawn i feirniadu ysgolion ac athrawon. Mae’n amlwg bod yna broblem cynyddol yn y sector cynradd o blant yn mynychu dosbarthiadau meithrin yn 4 oed dal mewn cewynnau, heb ddysgu mynd i’r toiled, yn methu golchi dwylo, ddim yn brwsio dannedd, methu dal cyllell a fforc, ac ati. Mewn rhai achosion nid yw eu geirfa a’u lleferydd yn cyd-fynd a’u hoedran. Mae disgwyl i ysgolion heddiw ddysgu’r pethau sylfaenol hyn sydd yn ymwneud â datblygiad corfforol a chymdeithasol y plentyn – ac mae hyn yn ymyrryd, wrth gwrs, â’r amser addysgu.

## Diweddglo

Credwn fod Holiadur Llwyth Gwaith UCAC 2014 wedi dod â chanlyniadau pwysig i'r golwg sydd angen eu hystyried ymhellach er lles y proffesiwn yng Nghymru a bod y Taith Llwyth Gwaith wedi cadarnhau’r canlyniadau hyn. Credwn, hefyd, bod y canlyniadau'n nodweddiadol o batrymau gwaith athrawon ledled Cymru, yn seiliedig ar ein profiad fel undeb o drafod gydag aelodau. Mae cwestiynau difrifol yn codi am y gallu i gadw athrawon cydwybodol mewn swyddi llawn amser; mae’n ymddangos nad yw gweithio llawn amser yn opsiwn i nifer o athrawon ac fel athrawon rhan amser maent yn gwneud wythnos llawn o waith.

Pwyswn ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gydnabod yr angen i ymateb ar frys i bryderon didwyll a thystiolaeth gadarn am lwyth gwaith gormodol ac i drafod ymhellach gydag UCAC ar ôl ystyried ein hymchwil. Mae'r llwyth gwaith yn cael effaith nid yn unig ar fywydau personol athrawon, ond hefyd, ar eu gallu i ganolbwyntio'u hymdrechion ar y pethau sydd fwyaf tebygol o godi safonau.

Hyderwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i sicrhau bod ysgolion Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ynglŷn ag amodau gwaith athrawon a gynhwysir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol gan gynnwys y cyfrifoldeb i sicrhau cydbwysedd bywyd gwaith rhesymol. Hyderwn y bydd, hefyd, yn awyddus i roi arweiniad cadarn ar sut i leihau llwyth gwaith gormodol athrawon gan ystyried gofynion amrywiol yr Awdurdodau Lleol, Consortia ac Estyn, yn ogystal â'r Adran Addysg a Sgiliau, a'u cyfraniad at y llwyth gwaith gormodol hwn.

Pwyswn arno i ystyried ymchwil UCAC, derbyn bod problem sylweddol a chymryd camau positif i fynd i’r afael â’r materion difrifol hyn.


Cred UCAC y gall lleihau llwyth gwaith athrawon gael effaith pellgyrhaeddol ar athrawon, ar ddisgyblion ac ar fyd addysg Cymru. Dyma'r unig ffordd y gellir diogelu dyfodol llwyddiannus i'r proffesiwn yng Nghymru a sicrhau'r safonau uchaf i blant a phobl ifainc.

**Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru**
**Ionawr 2015**


## Atodiad 1

### Graffiau perthnasol


#### 1. Oriau Gwaith Athrawon





*Pob atebydd





*Pob atebydd




*Rhan amser yn unig





*Arweinwyr Ysgol (pennaeth, dirprwy, pennaeth cynorthwyol)





| | | |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 1.82% | 13 |
| Cytuno | 20.70% | 148 |
| Dim barn arbennig | 10.07% | 72 |
| Anghytuno | 44.76% | 320 |
| Anghytuno'n gryf | 22.66% | 162 |

*Pob atebydd




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Dim barn arbennig | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth | 3.13%<br>1 | 12.50%<br>4 | 0.00%<br>0 | 37.50%<br>12 | 46.88%<br>15 | 32 |
| Dirprwy | 0.00%<br>0 | 16.13%<br>5 | 0.00%<br>0 | 51.61%<br>16 | 32.26%<br>10 | 31 |
| Pennaeth cynorthwyol | 0.00%<br>0 | 20.00%<br>5 | 8.00%<br>2 | 40.00%<br>10 | 32.00%<br>8 | 25 |


*Arweinwyr ysgol




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Dim barn arbennig | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhan amser | 3.81%<br>4 | 32.38%<br>34 | 14.29%<br>15 | 37.14%<br>39 | 12.38%<br>13 | 105 |

*Rhan amser


## 2. Beth sydd yn creu'r llwyth gwaith mwyaf?





| | | |
|---|---|---|
| Cynllunio | 53.82% | 387 |
| Paratoi gwersi ac adnoddau | 55.22% | 397 |
| Marcio / asesu (ar gyfer dysgu) | 66.48% | 478 |
| Asesiadau crynodol e.e. diwedd cyfnod allweddol, gwaith cwrs, paratoi adroddiadau ayyb. | 48.82% | 351 |
| Gweithredu blaengareddau'r Llywodraeth / Awdurdod Lleol / Ysgol | 25.03% | 180 |
| Trefn arolygu Estyn | 12.10% | 87 |
| Trefn monitro / arolygu Awdurdod Lleol / Consortia | 13.07% | 94 |
| Dadansoddi data | 11.27% | 81 |
| Hyfforddiant a chyfarfodydd | 10.43% | 75 |
| Materion rheolaethol (staffio, cyllido, polisiau, lles a diogelwch) | 13.77% | 99 |


*Pob atebydd

## Pa dri pheth sydd yn creu'r llwyth gwaith mwyaf i chi?








*Arweinwyr Ysgol (pennaeth, dirprwy, pennaeth cynorthwyol)




| | | |
|---|---|---|
| Cynllunio | 60.31% | 433 |
| Paratoi gwersi ac adnoddau | 90.95% | 653 |
| Marcio/asesu ar gyfer dysgu | 72.98% | 524 |
| Asesiadau crynodol e.e. diwedd cyfnod allweddol, gwaith cwrs, paratoi adroddiadau ayyb. | 5.85% | 42 |
| Gweithredu blaengareddau'r Llywodraeth/Awdurdod Lleol/Ysgol | 2.92% | 21 |
| Trefn arolygu Estyn | 0.56% | 4 |
| Trefn monitro / arolygu Awdurdod Lleol / Consortia | 1.81% | 13 |
| Dadansoddi data | 10.86% | 78 |
| Hyfforddiant a chyfarfodydd | 24.09% | 173 |
| Materion rheolaethol (staffio, cyllid, polisiau, lles a diogelwch) | 5.29% | 38 |


*Pob atebydd


Dewiswch hyd at dair elfen o'r gwaith isod sydd, yn eich barn chi, yn cael yr effaith fwyaf ar godi safonau?
Pennaeth
61.29%
77.42%
77.42%
3.23%
9.68%
3.23%
25.81%
25.81%
6.45%
12.90%
Dirprwy
58.06%
96.77%
80.65%
6.45%
12.90%
22.58%
9.68%
19.35%





*Arweinwyr ysgol


### 3. Beth sydd yn cael yr effaith leiaf ar godi safonau?




| | | |
|---|---|---|
| Cynllunio | 9.35% | 65 |
| Paratoi gwersi ac adnoddau | 0.14% | 1 |
| Marcio / asesu ar gyfer dysgu | 2.88% | 20 |
| Asesiadau crynodol e.e. diwedd cyfnod allweddol, gwaith cwrs, paratoi adroddiadau ayyb. | 31.94% | 222 |
| Gweithredu blaengareddau'r Llywodraeth/Awdurdod Lleol/Ysgol | 38.13% | 265 |
| Trefn arolygu Estyn | 54.53% | 379 |
| Trefn monitro / arolygu Awdurdod Lleol / Consortia | 43.74% | 304 |
| Dadansoddi data | 39.42% | 274 |
| Cyfarfodydd a hyfforddiant | 15.25% | 106 |
| Materion rheolaethol (staffio, cyllido, polisiau, lles a diogelwch) | 31.51% | 219 |


*Pob atebydd


Dewiswch hyd at dair elfen o'r gwaith isod sydd, yn eich barn chi, yn cael yr effaith leiaf ar godi safonau?
Pennaeth
3.23%
3.23%
51.61%
32.26%
45.16%
45.16%
25.81%
19.35%
41.94%
6.45%
9.68%
Dirprwy
3.23%
51.61%
45.16%
54.84%
41.94%
22.58%
6.45%
25.81%
9.68%





*Arweinwyr ysgol

**Mae popeth rwy'n gwneud fel rhan o'm swydd o fudd i'r dysgwr:**





| | | |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 7.82% | 56 |
| Cytuno | 22.91% | 164 |
| Dim barn arbennig | 8.52% | 61 |
| Anghytuno | 49.72% | 356 |
| Anghytuno'n gryf | 11.03% | 79 |

*Pob atebydd




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Dim barn arbennig | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth | 6.25%<br>2 | 9.38%<br>3 | 12.50%<br>4 | 31.25%<br>10 | 40.63%<br>13 | 32 |
| Dirprwy | 6.90%<br>2 | 34.48%<br>10 | 17.24%<br>5 | 34.48%<br>10 | 6.90%<br>2 | 29 |
| Pennaeth cynorthwyol | 0.00%<br>0 | 28.00%<br>7 | 16.00%<br>4 | 44.00%<br>11 | 12.00%<br>3 | 25 |


*Arweinwyr ysgol




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Dim barn arbennig | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhan amser | 4.76%<br>5 | 29.52%<br>31 | 8.57%<br>9 | 49.52%<br>52 | 7.62%<br>8 | 105 |


*Rhan amser

### 4. Ydych chi'n derbyn amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu?




| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 90.28% | 641 |
| Nac ydw | 9.72% | 69 |


*Pob atebydd




| | Ydw | Nac ydw | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth | 50.00%<br>16 | 50.00%<br>16 | 32 |
| Dirprwy | 93.10%<br>27 | 6.90%<br>2 | 29 |
| Pennaeth cynorthwyol | 88.00%<br>22 | 12.00%<br>3 | 25 |


*Arweinwyr ysgol


### 5. Pa gyfrifoldebau ychwanegol sydd gan athrawon?





| | | |
|---|---|---|
| Cynnal sesiynau hyfforddi i staff yr ysgol | 45.36% | 318 |
| Cynnal sesiynau hyfforddi i sefydliadau eraill | 9.13% | 64 |
| Mentora myfyrwyr | 49.36% | 346 |
| Mentora athrawon newydd gymhwyso / Mentora'r Cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol | 21.40% | 150 |
| Cyfieithu adnoddau / gohebiaeth i rieni | 70.04% | 491 |
| Gwneud trefniadau ar gyfer profion darllen a rhifedd | 40.23% | 282 |
| Cynnal gweithgareddau allgyrsiol / clybiau | 73.75% | 517 |
| Tasgau clerigol neu weinyddol | 64.05% | 449 |
| Cynnal sesiynau adolygu amser cinio / ar ôl ysgol | 45.79% | 321 |
| Cynnal sesiynau adolygu yn ystod y penwythnos / gwyliau | 20.11% | 141 |
| Cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol | 4.71% | 33 |

*Pob atebydd


Faint o'r canlynol rydych chi'n eu gwneud yn eich swydd? (ticiwch y blychau perthnasol)
Pennaeth
96.88%
25.00%
65.63%
46.88%
90.63%
96.88%
78.13%
96.88%
34.38%
6.25%
Dirprwy
90.32%
29.03%
58.06%
51.61%
83.87%
90.32%
93.55%
77.42%
48.39%
12.90%
6.45%




*Arweinwyr ysgol


Faint o'r canlynol rydych chi'n eu gwneud yn eich swydd? (ticiwch y blychau perthnasol)
30.61%
2.04%
41.84%
8.16%
65.31%
Rhan amser
41.84%
68.37%
63.27%
35.71%
11.22%
2.04%
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Cynnal sesiynau hyfforddi i staff yr ysgol
Cynnal sesiynau hyfforddi i sefydliadau eraill
Mentora myfyrwyr
Mentora athrawon newydd gymhwyso / Mentora'r Cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol
Cyfieithu adnoddau / gohebiaeth i rieni
Gwneud trefniadau ar gyfer profion darllen a rhifedd
Cynnal gweithgareddau allgyrsiol / clybiau
Tasgau clerigol neu weinyddol
Cynnal sesiynau adolygu amser cinio / ar ôl ysgol
Cynnal sesiynau adolygu yn ystod y penwythnos / gwyliau
Cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol

*Rhan amser

## Atodiad 2

### 1. Oriau Gwaith Athrawon

**Trawstoriad o sylwadau athrawon**

- *Rwyf wedi rhoi fy swydd llawn amser i fyny ers y Nadolig oherwydd bod y llwyth gwaith lawer rhy drwm. Rwyf nawr yn gwneud gwaith llanw.*
- *Rwy'n gweithio rhan amser (4 diwrnod) ac yn gwneud cynlluniau ayb bob nos tan tua 12 yr hwyr. Rwyf hefyd yn gwneud ryw 7 awr o waith ar fy niwrnod bant lle dylwn fod yn defnyddio'r amser gyda'm teulu.*
- *Yn falch mai gweithio'n rhan amser yr wyf fel bod gennyf fwy o amser i wneud gwaith tu allan i oriau ysgol.*
- *Ydw, gan fy mod wedi dewis gweithio rhan amser a newid o fod yn Ddirprwy i athrawes dosbarth er mwyn medru cael cydbwysedd.*
- *Mae gen i gyfrifoldebau teuluol ac rwy'n gweithio 4 diwrnod yr wythnos er mwyn rhyddhau digon o amser i fi gwrdd â'r cyfrifoldebau eraill yma - mae'r penwythnos yn hunllef ac rwyf yn gyson yn dod adref o'r gwaith, gwneud swper, delio gyda'r plant, cael cip ac yna deffro am 10 i ddechrau ar y gwaith. Fi yw'r cyflog cyson yn y tŷ ac mae'n lladdfa. Dyma'r gwaethaf a fuodd erioed ers i fi adael y brifysgol yn 1987 ac rwyf ar fin ymddiswyddo er lles fy iechyd.*
- *I feddwl mai ond tri diwrnod rwy'n gweithio rwy'n gweithio gartref trwy dydd Iau yn cynllunio a pharatoi gwersi ac mae fy oriau gwaith o ddydd Llun tan ddydd Mercher yn 8-5/6*
- *Mae'r llwyth gwaith wedi cynyddu yn sylweddol ac yn fy mhoeni yn arw- mae fy mywyd yn cael ei reoli gan fy ngwaith ar hyn o bryd.*
- *27 o adroddiadau wedi cymryd 50 awr o wyliau hanner tymor.*
- *Dwi'n bennaeth sy'n dysgu. Mae'r llwyth gwaith yn annioddefol ar brydiau, gan wneud i mi ystyried yn aml iawn os ydw i am barhau yn fy swydd. Ni fyddaf yn parhau mewn swydd wedi i mi gyrraedd 55 oed*
- *Mae ceisio ymdopi â'r llwyth gwaith beunyddiol yn golygu nad oes amser nac egni ar ôl ar gyfer bywyd teuluol.*
- *Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn ddidostur. Dydw i erioed wedi gweld pwysedd tebyg i sicrhau canlyniadau - oherwydd bandio mae'n debyg! Mae'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio i gymharu ysgolion yn ymddangos yn afresymol i mi. Os yw FFT (Fisher Family Trust) yn dibynnu ar CA2 does dim gobaith gan CA3. Gem beryglus sy'n cael ei chwarae - gem wleidyddol gyda dyfodol disgyblion.*
- *Fel ANG, rwy'n gweld yn galed i gael y cydbwysedd rhan fwyaf o'r amser ond ambell i ddydd (nid llawer) byddaf yn cael diwrnod i ymlacio a mwynhau.*
- *Ar hyn o bryd, mae fy ngwaith yn cymryd drosodd fy mywyd personol a theuluol.*
- *Mae bob prynhawn a nos Sul yn mynd yn paratoi ar gyfer dydd Llun a phob nos ar ôl ysgol yn marcio ac yn paratoi ar ôl gweithio drwy'r dydd yn yr ysgol.*
- *Mae gen i ddau o blant bach - 2 oed a 5 oed. Dwi ddim yn gwario'r amser y dylswn i wneud gyda hwy. Dydy'r gwaith ysgol adref (gweithio tan oriau mân y bore) a chodi yn y bore bach DDIM yn gynaliadwy.*
- *Gwaith ysgol yn mynd â rhan fwyaf o'm hamser, gyda'r nos (pob nos) a phob penwythnos.*

- *Rwy'n trio sicrhau fy mod i'n cael cydbwysedd bywyd/gwaith ac yn rhoi amser i fy nheulu fy hun - wedi gweld teuluoedd yn dioddef pan nad ydy athrawon yn gwneud hyn.*

- *Mae gwaith ysgol ar fy meddwl trwy'r amser a dwi'n ffindo fe'n anodd i switsio bant!!*

- *Ydw (cael cydbwysedd) rhan fwyaf o'r amser, ond dim ond oherwydd fy mod yn brofiadol a gallu stopio fy hun i weithio gan ddim ond rhan amser ydwyf. Rwyf wedi bod yn dysgu dros 30 mlynedd ac yn gweld y sefyllfa bresennol a'r pwysau di-ben-draw ar athrawon yn wallgof. Teimlaf fod y LEA yn chwarae rhan cryf yn y pwysau yma.*

- *Nid yn unig mae gwaith ysgol i'w wneud ond mae angen cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol megis Yr Urdd, gemau o bob math, garddio, dawnsio, ac felly mae amser yn mynd i'r gweithgareddau*

- *Ar hyn o bryd mae gwaith yn cymryd drosodd bywyd personol adref ac yn anffodus mae rhywbeth yn gorfod rhoi ac ar hyn o bryd teimlaf mai fy nheulu sy'n gwneud. Does dim gwahaniaeth faint o amser rydych yn rhoi dydy e byth yn ddigon ac mae safonau plant yn cyrraedd o adref a chylchoedd yn isel iawn dyddiau yma ac felly rydym yn chwarae proses o ddal fyny bob tro!*

- *Prin iawn yw'r cyfle i fwynhau unrhyw fath o weithgaredd personol oherwydd fod y nosweithiau a'r penwythnosau yn cael eu difetha gan waith Ysgol.*

- *Gorfod gwneud gwaith ysgol bob nos ac ar y penwythnos i gadw i fyny gyda gofynion y swydd. Ac hyd yn oed wedyn rwy'n methu cyflawni popeth.*

- *Pennaeth yn ffonio neu txtio ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ac ar gwyl banc hyd yn oed – yn rheolaidd, yn gynnar y bore ac yn hwyr y nos weithiau.*

- *Prin yr wyf yn cael seibiant rhag meddwl am, neu'n gweithredu ar waith. Dwi'n gweithio tan yn hwyr bron bob nos a mae prynhawn dydd Sul pob penwythnos yn cael ei benodi i gynllunio a pharatoi pethau ar gyfer yr wythnos ganlynol*

- *Mae fy ngŵr a finne yn athrawon. Dydy'r plant (13 a 10 oed) ddim eisiau bod yn athrawon wrth weld ni'n dau yn gweithio adre'n gyson!*

- *Yr wyf yn gweithio pob nos ac yn gweld y llwyth gwaith yn fwy- does dim posib cael y gorau o athrawon fel hyn!*

- *Gweithio hyd at 4 awr bob nos trwy'r wythnos ac ar y penwythnos.*

## 2. Beth sy'n creu'r llwyth gwaith mwyaf?

**Trawstoriad o sylwadau athrawon**

- *TREULIO CYMAINT O AMSER YN CYNLLUNIO, MONITRO. ASESU a.y.b. DIM DIGON O AMSER I GREU ADNODDAU AR GYFER Y GWERSI !!!*

- *Mae'r cynllunio erbyn hyn yn drwm iawn. Cymaint o wahanol ddogfennau i'w defnyddio.*

- *Mae'r pwyslais llethol ar gofnodi gorfanwl wrth gynllunio yn lladdfa - yn enwedig pan fo dosbarth oedran cymysg (4 blynedd ).*

- *Y tri uchod (Cynllunio, Paratoi, Marcio) ydy'r prif dri efallai ond mae angen cofio am yr oriau a dreulir ar y lleill hefyd.*

- *Rwy'n athrawes gydwybodol iawn ond y plant yn fy nosbarth ddylai ddod cyn dim arall a chael amser i baratoi gwersi diddorol iddynt yw'r peth pwysicaf i mi. MAE MARCIO ADEILADOL SEF DWY SEREN A DYMUNIADAU AYB A CHREU HERIAU GWAHANIAETHOL YN LLADD Y PLANT A FINNAU.*

- *Sicrhau canlyniadau gorau posibl TGAU - pwysau aruthrol - tracio CA3 a CA4 - mynnu sylw cyson -rhy gyson - dim digon o amser i alluogi disgybl i gynyddu.*

- *Mae 20 aelod o staff dysgu yn boddi'n llwyr o dan bwysau cynllunio newidiol cyson, marcio 120 o ddarnau o waith yn ddyddiol, paratoi gwersi heriol gwahaniaethol, cwblhau INCERTS a nawr yn gwneud adroddiadau 2000 o eiriau i 30 o ddisgyblion yr un ac ar ben hynny mae rhedeg dosbarth sydd â 30 o ddisgyblion ynddo yn hollol flinedig*

- *Dydi'r holl waith ychwanegol yma ddim yn gwella safon dysgu'r plant, a nhw sy'n bwysig*

- *Dros tair mlynedd bellach o bwysau cyson i ddatblygu deunyddiau ac ymateb i ofynion Estyn/llythrennedd. Mae'r newidiadau o ran addysgu wedi bod yn werthfawr ond roedd y disgwyliadau o fewn amser byr yn ddychrynllyd.*

- *Mae'r newidiadau diweddar i gwricwlwm o fewn cyfnod byr a negeseuon sy'n gwrth -ddweud yn ddryslyd ac yn tynnu gwynt o'r hwyliau !*

- *Mae diffyg arweiniad ac enghreifftiau o ran Blaengareddau Llywodraeth/Awdurdod Lleol hefyd yn ychwanegu at faich gwaith gyda'r dall yn arwain y dall fel arfer.*

- *Mae'r disgwyl bod athrawon yn llenwi 'Diagnostic tool' y Cynulliad ar wefan Dysgu Cymru ar ôl cynnal a marcio'r profion yn peri llwyth gwaith anhygoel.*

- *Rhedeg dosbarth - bod yn Bennaeth - dim cymorth clerigol a phrin dim amser digyswllt!!*

- *Gan mod i yn Bennaeth ac yn athrawes cyfnod Sylfaen ac ond yn cael 1.5 diwrnod di gyswllt mewn wythnos i reoli ysgol a pharatoi a chynllunio gwersi mae pwysau gwaith yn drwm iawn .*

- *Cydlynydd Ysgol Iach, Ysgol Werdd, Siarter Iaith, Cyngor Ysgol, Masnach Deg!*

- *Llwyth gwaith y dosbarth gyda rhifau yn codi a dim staff ychwanegol yn achosi mwy o salwch a stress di angen*

- *Cyfathrebu gyda rhieni hefyd yn cymryd llawer o amser*

- *Cyfarfodydd di ddiwedd hefyd*

## 3. Beth sydd yn cael yr effaith leiaf ar godi safonau?

**Trawstoriad o sylwadau athrawon**

- *Mae cyfuniad o elfennau yn gyfrifol am godi safonau yn fy marn i...rhaid ceisio ysgogi’r plant a deffro eu dychymig mewn gwersi sydd wedi’u paratoi’n dda.*

- *Newidiadau cyson yn tarfu ar ddilyniant addysg ac mae diffyg gweledigaeth tymor hir, snip o strategaeth un wlad a'r llall, mish mash llwyr.*

- *Gormod o waith cynllunio ar hyn o bryd; angen lleihau a chael ffydd mewn athrawon.*

- *Mae gormod o flaengareddau yn cael effaith negyddol ar y dysgu a'r addysgu.*

- *Diffyg hyfforddiant a gormod o gyfarfodydd ar ôl Ysgol yn lleihau cyfleoedd i baratoi adnoddau, ac ati.*
- *Angen cynllunio hyfforddiant yn fwy effeithiol.*
- *Mae hyfforddiant yn brin- dyma'r ffordd orau i godi safonau.*
- *Mae llawer o'r hyfforddiant yr wyf wedi bod arno yn ystod y flwyddyn wedi bod yn ail adrodd hyfforddiant blaenorol. Hefyd mae cyrsiau i lefelu gwaith a chreu portffolios yn bwyta mewn i'r amser dysgu ac yn effeithio ar y safonau yn y dosbarth.*
- *Mae dadansoddi data yn ddiddiwedd yn feichus iawn.*
- *Swmp o waith papur e.e. cynllunio, diangen*
- *Nid ydi Estyn na Consortia yn rhoi hwb yn bersonol i fy nulliau i o ddysgu.*
- *Mae pawb yn rhuthro i blesio Estyn am gyfnod. Mae'r athrawon da yn teimlo'n sâl.*
- *Maent i gyd yn codi safonau mewn un ffordd neu'i gilydd – ond mae gormod o waith papur yn gyffredinol.*

## 4. Ydych chi'n derbyn amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu?

**Trawstoriad o sylwadau athrawon**

- *Ond yn ei golli reit aml oherwydd newidiadau trefn ysgol a ddim yn ei gael yn ôl. Yn aml, mae'r amser yn gael ei golli i ddelio gyda materion arall, ee delio gyda rhieni, cwynion, monitro, mentora ANG*
- *OND - ni'r athrawon sydd yn cynllunio gwersi CPA (ar gyfer y bobl sy'n cymryd y gwersi). Codais gyda'r Pennaeth ond dyna ei benderfyniad.*
- *Rwyf dal yn gorfod rhoi llwyth o oriau ychwanegol i mewn yn fy amser personol.*
- *Mae disgwyl i unrhyw beth ychwanegol gael ei gwblhau yn ystod amser CPA ac wedyn nid oes amser ar gyfer cynllunio a pharatoi.*
- *Mae rhai athrawon yn gorfod mynd yn ôl at eu dosbarthiadau yn ystod CPA i ddelio ag ymddygiad disgyblion am fod cymhorthwyr (Lefel 4) yn cymryd eu dosbarth,*
- *Does dim dal ar ba ddiwrnod ond rwyf yn ei dderbyn, er weithiau yn gorfod gadael gwaith i'r person sydd yn fy lle sy'n mynd ag amser cynllunio heb angen.*
- *Dim ond 3 awr o CPA rwyf yn derbyn allan o 50 awr (sef amserlen pythefnos)*
- *Wedi methu tri sesiwn CPA hanner tymor yma oherwydd cyrsiau/mabolgampau.*
- *Gan amlaf. Ond sylwer mai cymryd dosbarthiadau ein gilydd yr ydym fel staff oherwydd diffyg cyllid. Ydi hyn yn deg ar y disgyblion? Cael ein rhoi mewn sefyllfaoedd heriol.*
- *Mae'r ysgol hon yn hynod o dda am sicrhau nad yw gwersi CPA yn cael eu colli.*
- *Nid yn reolaidd, dim digon o wersi paratoi (rhydd) pan fod Penaethiaid Cynnydd yn cael hyd at 20, a tîm rheoli i fyny at 28. Cyfnodau codi safonau newydd ar gael ar nos Fercher, ond dal yn cael ein tynnu i gyfarfodydd yn ystod yr adegau CPA, felly bron dim amser personol gwerthfawr.*

- *Mae hwn yn gymorth ymarferol gwych.*
- *Mae'r pennaeth yn gwrthod rhoi amser cpa i ni yn ystod wythnos olaf bob hanner tymor. Hefyd gan nad yw'n gofyn am gynlluniau wythnosol wrthym yn ystod mis Rhagfyr nid yw cpa yn cael ei rhoi, er bod digon o dasgau eraill allai gael eu cyflawni yn ystod cpa.*
- *Mae pethau'n codi o hyd. Er enghraifft, cyfarfodydd gyda mentoriaid ysgol ac allanol a chyfro gwersi.*
- *Ydw mewn theori gan fod y cyfnodau wedi eu nodi ar fy amserlen ond, yn ymarferol, nac ydw – mae materion bugeiliol/disgyblaeth/gweinyddol yn llyncu'r gwersi sydd wedi eu clustnodi yn amlach na pheidio.*
- *Ond nid ydwyf yn derbyn amser ychwanegol am waith senco nag amser rheolaeth.*
- *Mae ar fy amserlen ond yn rheolaidd mae'r amser yn mynd ar faterion bugeiliol.*
- *Mae cyfnodau CPA yn cael eu trefnu (athrawes arall yn cymryd y dosbarth) ond y rhan fwyaf o'r amser mae rhywbeth arall yn codi yn ystod yr adegau CPA sydd angen i mi roi sylw iddo e.e. disgybl yn dangos ymddygiad heriol, rhieni ayb*
- *Ond fel athro Iaith, teimlaf y dylwn gael mwy o amser er mwyn ymdopi â'r llwyth marcio ychwanegol.*
- *Er bod yr amser yma yn cael i ddefnyddio i ddelio gyda materion eraill sydd yn codi o ddydd i ddydd; e.e. cais am wybodaeth cynnydd disgybl, ble mae'n bosib derbyn tua 3 cais neu fwy mewn wythnos.*
- *Ond dydy o ddim digon!! Byddwn yn gallu gwneud llawer mwy wrth weithio adre mewn tawelwch heb bobl/ plant/ galwadau ffôn / problemau rhieni, ayb yn torri ar draws. Rydw i'n gweithio mewn ysgol fach 2 athrawes.*
- *Mae'r amser yn cael ei ddefnyddio yn aml ar gyfer casglu tystiolaeth ar gyfer hyn llall ac arall yn hytrach na pharatoi ac asesu.*
- *Fel Pennaeth, oherwydd cyfyngiadau ariannol, fi, fel arfer, sydd yn colli allan o ran amser CPA.*
- *Rydym yn lwcus iawn yn ein hysgol ni bod ein pennaeth yn gofalu nad oes colli amser CPA yn digwydd. Yn anffodus, caiff ei lenwi yn aml iawn gan elfennau eraill megis delio gyda phroblemau disgyblu neu materion pontio a pharatoi gwaith ar gyfer cymuned ddysgu.*
- *Ydw ond yn ei ddefnyddio fel arfer i wneud galwadau ffôn, gwaith gweinyddol*
- *Mae penaethiaid yn aml yn rhoi gwaith i athrawon i'w gwblhau yn ystod y cyfnod yma.*




**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com